CYFRES C10

# amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Enw


## Astudiaeth 2 Eliseus a'r Tlodion



**DARLLENWCH**
2 Brenhinoedd 4: 1- 44



**ADNOD ALLWEDDOL**
2 Brenhinoedd 4: 33



**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**
Effesiaid 3: 20 a 21     Philipiaid 4:13

Cawn ddarllen yn yr astudiaeth hon am bedair gwyrth a gyflawnodd Duw drwy Eliseus.

### 1. Adnodau 1-7. Y Wraig Weddw Dlawd.

**C** **Daeth gwraig at Eliseus mewn cyfyngder a thrafferth mawr. Beth oedd ei phroblem?** 2

**C** **Gofynnodd Eliseus ddau gwestiwn iddi. Beth oedden nhw?** 1

1


2

**C** **Beth oedd yr unig beth oedd gan y wraig weddw yn ei thŷ ?** 1

Dywedodd Eliseus wrthi beth i'w wneud.


**C** **Gosodwch y gorchmynion canlynol yn y drefn gywir drwy osod y rhifau 1 i 6 yn y blychau.** 3

- [ ] Dos i mewn i'r tŷ gyda dy feibion.
- [ ] Tâl dy ddyledion a bydd fyw ar y gweddill.
- [ ] Benthyg lestri gweigion gan dy gymdogion.
- [ ] Gwertha'r olew.
- [ ] Tywallt olew i'r llestri nes eu bod yn llawn.
- [ ] Cau dy ddrws.



### 2. Adnodau 8-37. Y Wraig o Sunem.

**Ar Draws**
**5. Dywedodd y mab y geiriau hyn wrth ei dad. (Dau air)**
**6. Gwas Eliseus.**
**7 a 9. Dau ddodrefnyn yn ystafell Eliseus.**
**8. Ar ôl dod o hyd i Eliseus ar y mynydd, cydiodd y wraig yn ei _ _ _ _ _**
**10. Yr adeg pan fu farw'r mab. (dau air)**
**11 a 13 i lawr. Disgrifir Eliseus fel _ _ _  _ _ _**
**1 Lawr**
**1. Enw'r lle'r oedd y wraig yn byw.**
**2. Enw'r mynydd lle cafodd y wraig hyd i Eliseus.**
**3 a 4. Dwy ran o'r corff sy'n cael eu crybwyll pan orweddodd Eliseus dros y bachgen.**
**12.Sawl gwaith y tisiodd y bachgen.**
**13. ac 11 ar draws Disgrifir Eliseus fel _ _ _  _ _ _**




6

**C** **Beth wnaeth Eliseus yn yr Adnod Allweddol?** 1

Gwyddai Eliseus na fedrai wneud dim dros y bachgen – doedd ganddo mo'r gallu. Dim ond nerth Duw ar waith drwy Eliseus a'i galluogodd i gyflawni gwyrthiau. Profwyd hyn unwaith eto pan ddaeth mab y weddw nôl yn fyw.

## 3. Adnodau 38-41. Angau yn y Crochan.

Ar brydiau, byddai Eliseus yn byw gyda chymuned o broffwydi yn ardal Gilgal, ar wastadedd Jericho. Mewn ardaloedd anial, lle'r oedd bywyd yn galed, roedd cymunedau o'r fath i'w cael fel arfer. Adeg newyn, doedd ganddynt ddim i'w fwyta, ac eithrio'r ychydig blanhigion gwyllt y byddent yn dod o hyd iddynt.

**C** **Beth oedd cynhwysion y cawl?** 1

**C** **Beth ddywedodd y proffwydi pan brofasant y cawl?** 1

**C** **Beth daflodd Eliseus i'r crochan?** 1

Dyma enghraifft arall o'r gallu roedd Duw wedi ei roi i Eliseus.


## 4. Adnodau 42-44. Amlhau'r Bwyd

**C** **Pa fwyd a ddarparwyd gan y ffermwr o Baal-salisa?** 2

**C** **Faint o ddynion gafodd eu bwydo â'r bwyd hwn?** 1

Roedd bwyd dros ben wedi iddyn nhw fwyta, yn union fel y dywedodd yr Arglwydd. Gwelwn yma ddarpariaeth Duw ar gyfer Ei bobl, fel yn y wyrth gyntaf yn y bennod. Mae'r Beibl yn dysgu fod Duw yn gallu gwneud yn anhraethol well na dim y gallwn ni ofyn na meddwl amdano. (Effesiaid 3:20). Pan fyddwn yn dod yn Gristnogion, mae'r Ysbryd Glân yn dod i fyw ynom ni.

(Darllenwch 1 Corinthiaid 6:19) Yr Ysbryd Glân sy'n ein galluogi i wneud pethau mawr dros Dduw.



**cyfanswm**